# Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010



**Cyf: 385A2010**

Delwedd drwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gan Rod Alcott (Arweinydd Asesu Gwelliant) a Jeremy Evans (Cydgysylltydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner).

# Mae trefniadau'r Cyngor yn gwella ac ategir ei agenda gwella uchelgeisiol gan arweinyddiaeth gref, trefniadau cynllunio effeithiol a rheoli ariannol cadarn, ond mae gwendidau o ran rhai trefniadau corfforaethol yn peryglu cynnydd

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Gan adeiladu ar sail darpariaeth gref, mae'r Cyngor bellach yn symud ymlaen gyda newid a flaenoriaethwyd sydd â'r potensial, os caiff ei reoli'n ofalus, i gefnogi ei welliant 6

Roedd gan y Cyngor drefniadau traddodiadol sefydlog a ddarparodd wasanaethau cadarn, ond roedd angen i'r Cyngor newid i fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg 6

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am newid, ac mae'n gwneud penderfyniadau pwysig ac yn gweithredu rhaglen newid gydlynol a chynhwysfawr 7

Mae maint yr heriau yn y dyfodol, yng nghyd-destun toriadau yng ngwariant y sector cyhoeddus, yn golygu y bydd angen rheoli cynlluniau uchelgeisiol y Cyngor yn ofalus os ydynt am gyflawni'r arbedion a'r gwelliannau a ragwelir 7

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella 8

Mae gan y Cyngor gryfderau penodol o ran arweinyddiaeth, trefniadau cynllunio effeithiol a rheoli ariannol cadarn ond mae gwendidau o ran craffu, yr ymagwedd gorfforaethol tuag at TGCh a rhai agweddau ar reoli pobl a gweithio mewn partneriaeth yn peryglu cynnydd 8

Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth gref a threfniadau cadarn ar y cyfan o ran ymgysylltu â dinasyddion a llywodraethu, ond mae angen datblygu craffu ymhellach 8

Tanategir amcanion clir gan gynlluniau cyflawni cydlynol a chynhwysfawr, trefniadau rheoli prosiect cadarn a threfniadau effeithiol ar y cyfan ar gyfer rheoli adnoddau a rheoli risg 9

Mae gwendidau yn ymagwedd y Cyngor tuag at TGCh a rhai agweddau ar reoli pobl a gweithio mewn partneriaeth yn peri risgiau i'r gwaith o gyflawni ei amcanion 10

Mae gwendidau o ran trefniadau rheoli perfformiad yn golygu bod bylchau o ran gwybodaeth gorfforaethol a gwybodaeth adrannol 12

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad o drefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad – i asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.

3 Cynlluniwyd y dull hwn er mwyn gallu cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol *'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus.'* Amlygwyd effaith bosibl y lleihad mewn gwariant ar lywodraeth leol gan CLILC, CIPFA a SOLACE hefyd. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC, 'nad oes modd dianc rhag y ffaith y bydd angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi – ni ellir datrys y diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig'. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'

7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.



**8** Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) yn gwella ac ategir ei agenda gwella uchelgeisiol gan arweinyddiaeth gref, trefniadau cynllunio effeithiol a rheoli ariannol cadarn, ond mae gwendidau o ran rhai trefniadau corfforaethol yn peryglu cynnydd.

**9** Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:

- gan adeiladu ar sail darpariaeth gref, mae'r Cyngor bellach yn bwrw ymlaen gyda rhaglen newid a flaenoriaethwyd, sydd â'r potensial, os caiff ei rheoli'n ofalus, i gefnogi ei welliant;
- Mae gan y Cyngor gryfderau penodol o ran arweinyddiaeth, trefniadau cynllunio effeithiol a rheoli ariannol cadarn, ond mae gwendidau o ran craffu, yr ymagwedd gorfforaethol tuag at TGCh a rhai agweddau ar reoli pobl a gweithio mewn partneriaeth yn bygwth ei gynnydd.

## Arolygiad arbennig

**10** O ganlyniad i'r asesiad corfforaethol hwn, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur.

## Argymhellion

**11** Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur ond awgrymir meysydd i'w gwella isod.

## Meysydd i'w gwella

**12** Mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

| Arddangosyn 1: Meysydd i'w Gwella |
|---|
| C1 Cyflwyno system o arfarnu perfformiad staff, gan ddechrau gydag uwch reolwyr, i roi mwy o atebolrwydd, atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad a bod yn sbardun i newid diwylliant y sefydliad. |
| C2 Mabwysiadu dull mwy cynhwysfawr o rannu gwersi a ddysgwyd o'r Rhaglen Drawsnewid a fyddai'n galluogi mwy o wasanaethau i fod yn ymwybodol o'r canlyniadau a helpu i ymgorffori newid diwylliannol o fewn y Cyngor. |
| C3 Datblygu mesurau perfformiad i gefnogi'r newid i feddylfryd systemau a galluogi nodi manteision hynny. |
| C4 Nodi materion sy'n dod i'r amlwg o ran gallu ac adnoddau a datblygu dull o ddatblygu ac adleoli staff a fydd yn helpu i liniaru problemau posibl. |
| C5 Symleiddio gweithio mewn partneriaeth i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ddeilliannau ac wedi'i gefnogi gan drefniadau her a chraffu cadarn. |
| C6 Datblygu strategaeth TGCh a mynd i'r afael â'r cynnydd araf o ran cynnal adolygiad systemau o TGCh. |

# Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Gan adeiladu ar sail darpariaeth gref, mae'r Cyngor bellach yn bwrw ymlaen gyda rhaglen newid a flaenoriaethwyd, sydd â'r potensial, os caiff ei rheoli'n ofalus, i gefnogi gwelliant

13 Mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau cadarn ond roedd yn wynebu'r perygl o beidio â symud ymlaen yn ddigon cyflym oherwydd oedi cyn gwneud rhai penderfyniadau allweddol. Yn fwy diweddar mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran gwneud rhai penderfyniadau pwysig, er enghraifft o ran trosglwyddo'r stoc dai a moderneiddio ysgolion, a fydd yn cefnogi Rhaglen Drawsnewid y Cyngor.

14 Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach yn wynebu ei her fwyaf, sef rheoli'r broses o weithredu newid yn ofalus i sicrhau y gwireddir y gwelliannau a ragwelwyd. Ni ellir gorbwysleisio maint yr her hon. Bydd yn dod ar adeg pan fydd y Cyngor yn wynebu toriadau llym mewn gwariant a'r angen i wneud penderfyniadau caled ac amserol ar y defnydd o adnoddau.

### Roedd gan y Cyngor drefniadau traddodiadol sefydlog a oedd yn darparu gwasanaethau cadarn, ond roedd angen iddo newid i fynd i'r afael â heriau a oedd yn dod i'r amlwg

15 Roedd gan y Cyngor hanes o reoli cadarn a oedd yn seiliedig ar uwch swyddogion a fu yn eu swyddi ers blynyddoedd, a model llywodraethu cabinet un blaid. Roedd y trefniadau hyn yn darparu gwasanaethau cadarn, a oedd yn ardderchog ar brydiau, fel dengys canfyddiadau Adolygiad ar y Cyd o Wasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2008.

16 Cydnabuwyd yr angen i wneud arbedion ers 2007, ond yn y gorffennol bu'r Cyngor yn araf yn gwneud rhai penderfyniadau pwysig. Roedd y penderfyniadau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod cydnabod yr angen am arbedion yn arwain at gamau gweithredu i sicrhau'r arbedion hynny.

17 Ar 29 Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol, gan gadarnhau iddynt gael eu llunio yn unol â gofynion statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, nododd yr Archwilydd Penodedig fod angen gwella'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd y datganiad o gyfrifon.

18 Yn y Llythyr Blynyddol diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009, roedd yr Archwilydd Penodedig yn cydnabod bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i weinyddu materion ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt, ac i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o



adnoddau, gyda hanes da o gyflawni ei gyllideb refeniw. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau sylweddol y bydd angen eu rheoli'n ofalus dros y blynyddoedd nesaf os yw am wireddu ei 'weledigaeth ar gyfer trawsnewid' er mwyn cyflawni dulliau gwahanol o ddiwallu anghenion pobl leol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Daethom i'r casgliad fod gan y Cyngor raglen newid uchelgeisiol, ond rhaid iddo weithredu nawr a dangos arweinyddiaeth gref ar draws y Cyngor i gyflymu'r newid gan fod arwyddion y gallai oedi pellach wrth wneud penderfyniadau allweddol ei atal rhag cyflawni'r canlyniadau a'r arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen arno

**19** Roedd ein Llythyrau Blynyddol a anfonwyd i'r Cyngor o 2006 i 2009 yn cynnwys rhai themâu a godwyd dro ar ôl tro, yn enwedig yr angen i gyflymu'r newid a datblygu ac ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad ymhellach.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am newid, mae'n gwneud penderfyniadau pwysig ac yn gweithredu rhaglen newid gydlynol a chynhwysfawr

**20** Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo newid i fod yn sefydliad mwy effeithlon, gan ddarparu gwasanaethau cost effeithiol a dargedwyd i ddiwallu anghenion dinasyddion lleol. Sefydlodd y Cyngor y Rhaglen Drawsnewid i hwyluso'r newid hwn. Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys haenau o brosiectau a flaenoriaethwyd sy'n gysylltiedig â'r nodau busnes cyffredinol ac sy'n nodi gwelliannau gwasanaeth ac arbedion ariannol diriaethol.

**21** Mae'r ffaith bod y Cyngor yn cydnabod yr angen i gyflymu'r newid hwn wedi'i adlewyrchu mewn nifer o benderfyniadau pwysig a wnaed yn ddiweddar. Mae'r penderfyniadau hyn, sy'n ymwneud â throsglwyddo'r stoc dai, trawsnewid gwasanaethau pobl hŷn, moderneiddio ysgolion a datblygu strategaeth gweithlu yn helpu i symud y Rhaglen Drawsnewid yn ei blaen.

**22** Mae'r Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd fwy agored tuag at syniadau newid ac yn cydnabod gwerth buddsoddi er mwyn arbed. Mae parodrwydd y Cyngor i ystyried meddylfryd systemau yn arwydd o hynny. Mae'n cynnwys astudio'r hyn sy'n bwysig i bobl leol ac yna herio'r prosesau busnes cysylltiedig i nodi effeithlonrwydd ac arbedion posibl. Bydd mabwysiadu'r ymagwedd hon ar raddfa eang yn galw am newid diwylliannol nad yw'r Cyngor wedi'i gyflawni hyd yma. Ar hyn o bryd mae rhai swyddogion yn hollol ymrwymedig i'r ffordd newydd hon o weithio tra bod eraill yn parhau i fod yn amheugar ac yn gwrthsefyll newid.

## Mae maint yr heriau yn y dyfodol, yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant sector cyhoeddus, yn golygu y bydd angen rheoli cynlluniau uchelgeisiol y Cyngor yn ofalus os ydynt am gyflawni'r arbedion a'r gwelliannau a ragwelwyd

**23** Bydd maint yr arbedion sydd eu hangen dros y blynyddoedd nesaf lawer yn fwy nag ar unrhyw adeg yn hanes y Cyngor. Yn anochel bydd maint yr arbedion sydd eu hangen yn arwain at benderfyniadau anodd o ran pa wasanaethau i'w darparu a sut i'w darparu tra'n gwneud yr arbedion angenrheidiol ar yr un pryd.

**24** Gall y cyd-destun hwn fwrw amheuaeth dros gynaliadwyedd y rhaglen newid uchelgeisiol. Gan fod mwy o wasanaethau yn rhan o adolygiadau o systemau, mae'n debyg y bydd gallu ac adnoddau ymhlith rheolwyr yn broblem. Mae gan yr anawsterau hyn o ran gallu ac adnoddau y potensial i effeithio ar gynaliadwyedd a chyflymder y rhaglen newid ac effeithio yn y pen draw ar y broses o foderneiddio gwasanaethau.

# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella

## Mae gan y Cyngor gryfderau penodol o ran arweinyddiaeth, trefniadau cynllunio effeithiol a rheoli ariannol cadarn, ond mae gwendidau o ran craffu, yr ymagwedd gorfforaethol tuag at TGCh a rhai agweddau ar reoli pobl a gweithio mewn partneriaeth yn bygwth ei gynnydd

### Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth gref ac mae ganddo drefniadau cadarn ar y cyfan ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a llywodraethu, ond mae angen datblygu prosesau craffu ymhellach

25 Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth wleidyddol gref, sefydlog sy'n seiliedig ar weinyddiaeth un blaid sydd â mwyafrif gweithredol cyfforddus. Mae'r arweinyddiaeth wleidyddol hon, ar y cyd ag uwch reolwr cadarn, wedi arwain at wneud nifer o benderfyniadau pwysig yn ddiweddar. Mae'r penderfyniadau hyn yn llwyfan ar gyfer gwella yn y dyfodol.

26 Mae gan y Cyngor ddull da o ymgysylltu â dinasyddion gan ddefnyddio sawl dull i ddatblygu dealltwriaeth. Mae panel y dinasyddion wedi ennill ei blwyf ac mae'r Cyngor yn holi ei farn o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn cysylltu â fforymau sector gwirfoddol ar gyfer pobl hŷn a grwpiau anabledd er mwyn holi barn a datblygu dealltwriaeth o'r farn honno. Yn ogystal mae'r Cyngor yn gweld gwybodaeth sy'n deillio o ymgynghoriadau a gynhelir gan bartneriaid megis yr heddlu.

27 Datblygodd aelodau Byrddau Gwasanaethau Lleol 'Trafod Castell-nedd Port Talbot' sef gwefan bartneriaeth sydd â'r nod o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'r broses ymgynghori yn cynnwys rhoi adborth i'r sawl sy'n cyfrannu a rhoi cyhoeddusrwydd i ganlyniadau'r broses ymgynghori. Yn ogystal mae gan wefan y Cyngor adran 'dweud eich dweud' ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.

28 Ceir cydberthnasau gwaith da rhwng aelodau a swyddogion a dim ymddygiad y mae angen ei gyfeirio at yr Ombwdsmon. Caiff pwyllgorau craffu eu cadeirio gan aelodau'r weinyddiaeth, a chynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ar fore'r un diwrnod y mae cyfarfodydd cabinet wedi'u trefnu ar gyfer y prynhawn. Mae'r model hwn yn agored i feirniadaeth oherwydd y diffyg amser ar gyfer craffu manwl a her effeithiol.

29 Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad o drefniadau craffu, ynghyd â Chyngor Dinas Caerdydd, ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae swyddogion yn disgwyl cyflwyno adroddiad ar yr adolygiad hwn ar ddiwedd yr haf.



## Tanategir amcanion clir gan gynlluniau cyflawni cydlynol a chynhwysfawr, trefniadau rheoli prosiect cadarn a threfniadau rheoli adnoddau a rheoli risg sy'n effeithiol ar y cyfan

30 Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, wedi sefydlu Strategaeth Gymunedol. Mae hyn, ynghyd â mentrau cenedlaethol a mewnbwn gwleidyddol lleol yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor 'Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig'. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Amcanion Gwella'r Cyngor.

31 Y Rhaglen Drawsnewid yw'r prif gyfrwng ar gyfer cyflawni gwelliant. Mae'r Rhaglen hon yn cynnwys haenau a flaenoriaethwyd o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r nodau busnes cyffredinol ac sy'n nodi meysydd gwella gwasanaethau diriaethol ac arbedion ariannol. Mae'r prosiectau blaenoriaeth uchel allweddol yn cynnwys:

- Trosglwyddo'r Stoc Dai;
- Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn;
- Gwella Ysgolion yn Strategol;
- Moderneiddio'r Cyngor;
- Gwerthuso Swyddi;
- Adfywio;
- Trawsnewid Gwasanaethau Plant.

32 Mae'r Cyngor yn rheoli'r rhaglen newid yn effeithiol, ond hyd yma nid yw wedi goresgyn pob un o'r heriau megis yr angen i gynnal y rhaglen ac ymgorffori newid yn niwylliant y sefydliad. Mae gwireddu'r manteision disgwyliedig yn llawn yn amodol ar barhau i gyflawni cynhyrchion prosiect o ansawdd. Mae'r Cyngor yn hyfforddi ac yn cefnogi staff yn ogystal â rhannu pwyntiau dysgu ac arfer da o raglenni mewn modd a flaenoriaethwyd. Byddai mabwysiadu dull mwy cynhwysfawr o rannu dysgu yn galluogi mwy o wasanaethau i fod yn ymwybodol o'r canlyniadau ac yn cyfrannu at y newidiadau sydd eu hangen i ddiwylliant y sefydliad.

33 Mae trefniadau rheoli prosiect y Cyngor yn gadarn, yn enwedig y trefniadau hynny ar gyfer prosiectau â blaenoriaeth haen un sydd wedi'u cynnwys o fewn y rhaglen drawsnewid. Ymhlith y trefniadau hyn mae:

- Bwrdd rhaglen cyffredinol sefydledig gyda chynrychiolaeth gan uwch swyddogion o bob rhan o'r Cyngor;
- Rheolwyr prosiect hyfforddedig a phrofiadol gyda chefnogaeth ganolog;
- tîm prosiect cynhwysol sy'n defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael drwy'r Cyngor cyfan fel y bo angen.

34 Mae'r Cyngor wedi ystyried maes rheoli asedau adeiladau o fewn cyd-destun pob un o'r prosiectau trawsnewid haen un, ac mae'r wybodaeth hon yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

35 Mae swyddogion yn cefnogi'r prosesau o wneud penderfyniadau gwleidyddol gyda thoreth o ddata dilys, sydd ar gael i bob aelod. Mae swyddogion hefyd yn cynnal seminarau gwybodaeth, sy'n ddull o ategu'r wybodaeth ysgrifenedig ymhellach gyda'r cyfle am sesiynau holi ac ateb.

36 Mae'r Cyngor yn un o'r awdurdodau prin yng Nghymru sydd wedi cytuno ar ei gynlluniau statws sengl a gwerthuso swyddi gyda staff ac wedi cwblhau'r broses o newid i bwyntiau cyflog diwygiedig. Mabwysiadodd y Cyngor

broses gadarn ar gyfer yr ymarfer gwerthuso swyddi/statws sengl er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu cymhathu ar y radd briodol. Nodwyd goblygiadau'r ymarfer o ran y gost ac adlewyrchir hynny yn y trefniadau cynllunio cyllideb.

37 Mae gan y Cyngor hanes da o wario yn ôl ei gyllideb refeniw, fel y gwelir o'r tanwariant o tua £688,000 a nodwyd yn 2008-09, a'r lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn (£55.5 miliwn ar 31 Mawrth 2009). Er bod rheolaethau priodol ar waith ar systemau ariannol pwysig y Cyngor, nid aed i'r afael o hyd â nifer o'r materion a godwyd yn Llythyr Blynyddol y llynedd.

38 Mae rheolaethau mewnol effeithiol yn ddull arall a ddefnyddir gan y Cyngor i sicrhau fod ganddo drefniadau rheoli adnoddau effeithiol ar waith. Un o elfennau allweddol y rheolaethau hyn yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol. Canfu ein hadolygiad o'r gwasanaeth archwilio mewnol ei fod wedi bodloni'r safonau proffesiynol gofynnol.

39 Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gwreiddiol a nodwyd yn y ddogfen 'time for change' yn achosi dryswch oherwydd nodwyd dwy ffrwd o arbedion nad oeddent yn gyson â'i gilydd. Roedd y strategaethau arbedion yn adlewyrchu arbedion o £17.9 miliwn dros y pum mlynedd nesaf (i 2013-14) er bod yr adroddiad yn cyfeirio at yr angen i wneud gwerth £28.3 miliwn o arbedion dros yr un cyfnod, sef diffyg o £10.3 miliwn. Roedd yr adroddiad hefyd yn creu dryswch gan ei fod yn cymysgu materion yn ymwneud â'r Rhaglen Drawsnewid ag arbedion gwasanaeth eraill, ond nid mewn ffordd y gellid ei nodi'n glir.

40 Cynhyrchwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig ym mis Mawrth 2010 dan y teitl strategaethau arbedion y Blaengynllun Ariannol. Mae'r ddogfen hon yn nodi arbedion o £29 miliwn sy'n unol â'r tybiaethau cynllunio presennol. Fodd bynnag, o fewn y cynlluniau arbedion manwl, ceir tua £5.5 miliwn o arbedion nas nodwyd ar hyn o bryd yn ystod tair blynedd olaf y cynllun, sef 19 y cant o'r cyfanswm sydd ei angen. Mae cyfran fawr o'r arbedion a nodwyd hefyd yn ymwneud â materion staffio nad ydynt wedi'u penderfynu'n derfynol hyd yma. Mae hefyd yn anodd cysylltu arbedion o brosiectau haen 1 y Rhaglen Drawsnewid gan mai dim ond y prosiect trawsnewid gwasanaethau pobl hŷn a'r prosiect rheoli gwastraff y gellir eu nodi'n glir. Yn ogystal, ymddengys fod amseriad rhai o'r ffrydiau ariannol braidd yn optimistaidd. Mae'r Cyngor wedi datblygu cofrestr risg gynhwysfawr i reoli risg yn effeithiol o fewn y Rhaglen Drawsnewid. Mae wedi adeiladu ar sail y gwaith hwn i greu cofrestr risgiau corfforaethol sy'n adlewyrchu'r risgiau o'r Rhaglen Drawsnewid yn ogystal â'r risgiau sy'n seiliedig ar wasanaethau a nodwyd gan y penaethiaid gwasanaeth. Caiff y cofrestri hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i ddarparu system effeithiol ar gyfer nodi a rheoli risgiau ar draws y Cyngor.

## Mae gwendidau yn ymagwedd y Cyngor tuag at TGCh a rhai agweddau ar reoli pobl a gweithio mewn partneriaeth yn peri risgiau i'r gwaith o gyflawni ei amcanion

41 Mae gan y Cyngor Strategaeth Gweithlu a gymeradwywyd gan y Cabinet sy'n cynnwys mesurau i leihau maint y gweithlu gan 740 o swyddi dros gyfnod y Blaengynllun Ariannol. Disgwylir i'r meysydd lle y caiff y 200 o swyddi cyntaf eu harbed eu cytuno â'r Undebau Llafur erbyn 31 Gorffennaf 2010. Bwriedir lleihau nifer y swyddi drwy ymddeoliad cynnar, diswyddiadau gwirfoddol a gohirio recriwtio unrhyw staff pellach i ddechrau, yn ogystal â lleihau'r bil cyflogau drwy newidiadau i'r telerau ac amodau.



42 Er bod y Cyngor wedi cymeradwyo strategaeth gweithlu ceir gwendidau yn ei drefniadau cynllunio'r gweithlu. Ar hyn o bryd nid oes ganddo ddull a ymgorfforwyd o leihau costau staff sy'n seiliedig ar gynllun busnes, cynllun ariannol a chynllun gweithlu integredig. Byddai datblygu dull o'r fath yn galluogi'r Cyngor i nodi materion sy'n dod i'r amlwg o ran gallu ac adnoddau a datblygu dull o ddatblygu ac adleoli staff a fydd yn helpu i liniaru problemau posibl. Mae diffyg dull strategol o'r fath yn peri risg sylweddol o gamgyfatebiaeth yn y dyfodol rhwng gofynion o ran adnoddau a'r cyflenwad sgiliau. Nid oes gan y Cyngor broses arfarnu perfformiad staff ar waith. Byddai datblygu prosesau arfarnu a gwneud staff yn atebol am eu perfformiad mewn ffordd gyson yn chwarae rhan allweddol o ran atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad.

43 Ar hyn o bryd mae rheolwyr llinell yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael gan unigolion pan ddaw hynny i'r amlwg. Mae rhwymedigaeth ar reolwyr llinell i gynnwys swyddogion Adnoddau Dynol os nad yw'n bosibl datrys y sefyllfa. Nid oes unrhyw feini prawf clir ar gyfer gofyn am gymorth staff Adnoddau Dynol, sy'n gallu arwain at arfer anghyson.

44 Mae'r Cyngor wedi nodi Absenoldeb Oherwydd Salwch fel maes gweithredu â blaenoriaeth ac mae wedi ffurfio tîm bach i gynnal adolygiad llinell sylfaen a pharatoi cynllun gweithredu. Mae ffigurau absenoldeb oherwydd salwch yn sefydlog ar lefel sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, ond nid yw'r wybodaeth am berfformiad yn cynnwys digon o fanylion i'r Cyngor allu sicrhau dealltwriaeth lawn o faterion o ran absenoldeb oherwydd salwch ar lefel adrannol. Mae rheolwr llinell o'r farn nad oes digon o gefnogaeth ar gael iddynt, ac mae ansicrwydd o ran rolau a chyfrifoldebau yn arwain at gymhwyso polisïau mewn modd anghyson.

45 Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro'r swyddogaeth Adnoddau Dynol i ddatblygu dull mwy corfforaethol o weithredu polisïau a gweithdrefnau. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys newid sylweddol ar gyfer rheolwyr ym mhob gwasanaeth, ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi ac annog 'rheolwyr i reoli'. Ceir rhai enghreifftiau o arfer da o ran rheoli pobl, fel y gwelir yn yr adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl cadarnhaol diweddar a baratowyd ar gyfer y Gyfadran Gwasanaeth Cymdeithasol, Iechyd a Thai. Mae angen i'r Cyngor sicrhau y caiff yr arfer da hwn ei ymgorffori a'i ledaenu i feysydd lle ceir diffygion o ran yr arfer presennol.

46 Nid oes gan y Cyngor Strategaeth TGCh ar hyn o bryd. Mae hwn yn wendid sylweddol mewn maes allweddol o ran galluogi gweithgaredd corfforaethol. Mae'r gwasanaeth TGCh ei hun yn cynnal adolygiad systemau ond mae'r cynnydd yn araf. Dangosodd arolwg boddhad cwsmeriaid diweddar bod perfformiad yn dirywio.

47 Dros y 14 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ystod eang o bartneriaethau ac mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen symleiddio ei ddull i sicrhau y defnyddir amser swyddogion mewn modd adeiladol ac y gwneir defnydd mwy effeithiol o adnoddau.

48 Mae'r Cyngor wedi sefydlu amryw o swyddi ar y cyd sydd wedi'u cysylltu'n bennaf ag argaeledd arian grant. Er bod y swyddi wedi'u hariannu ar y cyd, ceir canfyddiad bod y Cyngor yn awyddus i gadw'r holl gyfrifoldebau rheoli o fewn eu strwythurau. Y perygl yw y gallai hyn awgrymu nad yw'r Cyngor yn llwyr ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth. Yn fwy diweddar ceir tystiolaeth i awgrymu y gall y dull hwn fod yn newid.

49 Ar brydiau, bu'r Cyngor yn arloesol, er enghraifft wrth ddatblygu Canolfan Adnoddau Gofal Sylfaenol fel partner ar y cyd a'r maes iechyd a datblygwr trydydd parti. Fodd bynnag, ni fu trefniadau llywodraethu mewn rhai partneriaethau mor effeithiol ag y gallent fod, yn enwedig o ran her a chraffu, o fewn y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd. Yn ogystal prin fu'r cynnydd a wnaed o ran pennu dangosyddion perfformiad a meini prawf llwyddiant ar y cyd gyda phartneriaid.

50 Ceir rhai partneriaethau cadarn yn cynnwys y Bartneriaeth Argyfyngau Sifil Posibl a'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, lle yr eir i'r afael â blaenoriaethau megis cyflymu'r dull o ddatblygu gofal integredig.

51 Ar brydiau bu gwendidau o ran cyfathrebu sydd wedi arwain at anawsterau o ran gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig o fewn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Gofal Iechyd Parhaus. Fodd bynnag, er gwaethaf y problemau cyfathrebu hyn, gwelwyd bod y Cyngor yn gwneud cyfraniad pwysig i'r Bartneriaeth Pobl Ifanc, gan ddatblygu'r strategaeth rhieni a gofalwyr ar y cyd â'r bwrdd iechyd.

## Mae gwendidau o ran trefniadau rheoli perfformiad yn golygu bod bylchau mewn gwybodaeth gorfforaethol a gwybodaeth adrannol

52 Mae'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol presennol yn canolbwyntio ar fesur a monitro o fewn fframwaith sy'n cael ei lywio'n ganolog yn hytrach na bod y gwasanaeth yn berchen ar y broses. Gosodir y pwyslais ar fesur perfformiad yn hytrach na rheoli perfformiad.

53 Mae trefniadau'r Cyngor i graffu ar berfformiad yn wan, ac mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull i'w wneud yn fwy effeithiol. Mae'r model newydd hwn yn cynnwys craffu gan swyddogion ac aelodau ar bob cam allweddol, a dylai roi darlun llawnach o berfformiad i'r Cyngor, a'i alluogi i reoli perfformiad yn fwy cadarn.

54 Mae'r ffaith bod y Cyngor wedi mabwysiadu meddylfryd systemau yn ei annog i gymryd safbwynt gwahanol o ran mesur perfformiad. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r Cyngor wedi datblygu mesurau newydd yn llawn y gellir eu dadansoddi i fesur maint y gwelliant. Er hynny ar y lefel ficro, mae adolygiadau system yn darparu gwybodaeth am berfformiad a ddefnyddir gan swyddogion i wella darparu gwasanaethau.

